**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-LW-3196-20

Arweinydd Awdurdod Lleol

14 Hydref 2020

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Cyflwyno Mapiau Rhwydwaith Integredig**

Ysgrifennais atoch ar 30 Ebrill er mwyn newid dyddiad cyflwyno'r mapiau rhwydwaith integredig i 30 Medi 2021 a gofynnais i chi gyflwyno eich cynllun amlinellol at ddiben ymgynghori ac ymgysylltu yn y broses hon erbyn diwedd mis Awst 2020. Rwy'n falch iawn fy mod wedi derbyn cynlluniau rhanddeiliaid gan bob awdurdod lleol ac mae fy swyddogion wedi adolygu'r rhain.

Mae swyddogion awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon na fydd modd iddynt ymgynghori ynghylch eu cylch nesaf o fapiau yn ystod y cyfnod cyn etholiad ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Golyga hyn nad oes llawer iawn o amser ar gael i ymgynghori cyn cwblhau'r mapiau erbyn dyddiad cyflwyno mis Medi. Mae'r cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth COVID-19 wedi gwneud y gwaith yma hyd yn oed yn fwy heriol.

Mae ymgysylltu cyflawn a buddiol â defnyddwyr presennol teithio llesol ac yn bwysicaf oll ddefnyddwyr anfynych teithio llesol wrth wraidd y gwaith o greu rhwydweithiau cerdded a beicio er mwyn newid ymddygiadau teithio a newid dulliau teithio. O'r herwydd rwy'n cyhoeddi'r cyfarwyddyd sydd ynghlwm er mwyn newid dyddiad cyflwyno mapiau rhwydwaith integredig. O'r herwydd bydd angen eu cyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021.

Mae swyddogion eisoes wedi cyflwyno platform ymgysylltu ar-lein, sef Lle Cyffredin, a fydd ar gael i bob awdurdod lleol yn ystod yr wythnos nesaf. Rhoddwyd cyflwyniad i swyddogion awdurdodau lleol am y platform hwn yn ystod seminarau diweddar. Yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf yma bydd adnoddau ychwanegol a chymorth ag ymgysylltu a chyfathrebu yn cael eu datblygu, a bydd y cyfan ar-lein erbyn Gwanwyn 2021. A fyddech cystal â sicrhau bod eich cynlluniau ymgysylltu yn cael eu diwygio fel bod modd manteisio ar y misoedd a'r adnoddau ychwanegol a fydd bellach ar gael fel bod modd cynnwys holl ddefnyddwyr amrywiol ddulliau teithio llesol ar ôl mis Mai 2021?

Yn gywir,

**Lee Waters AS / MS**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.